
# Adroddiad Cynnydd

# Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Rhagfyr 2022



| Rheoli Fersiwn | |
|---|---|
| Teitl | Adroddiad Cynnydd Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau 2022 |
| Diben | Asesu ein cynnydd a pherfformiad ers y daeth dyletswydd Adran 6 i rym (Mai 2016) a gwerthuso pa mor dda yr ydym wedi gwneud i helpu dinasyddion eraill i'n dal i gyfrif ar ein perfformiad.<br>Mae'r cynllun yn cyflawni cyfrifoldebau y cyngor dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i adrodd ar y cynnydd a wnaeth wrth gyflawni ei Amcanion Adfer Natur am y cyfnod adrodd blaenorol (2019/22) |
| Perchennog | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Rhif Fersiwn | F1 |
| Amlder Adolygu | Bob 3 blynedd |
| Dyddiad Adolygiad Nesaf | 2025 |

# Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chyd-destun ..... 5

1.1 Strwythur Adrodd ..... 5

1.2 Yr Awdurdod Cyhoeddus: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ..... 6

1.3 Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem ..... 6

Blwch.1 Nodau Blaengynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ..... 7

Blwch 2 Amcanion Blaengynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau GwentGovernance & Partnerships: ..... 8

Adnoddau: ..... 8

Gwasanaeth Masnachol: ..... 8

Gwasanaethau Cymdeithasol ..... 8

Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ..... 8

Addysg ..... 8

1.4 Cefnogi Darpariaeth ..... 9

..... 10

Blwch 3. Partneriaeth Natur Leol ..... 10

1.5 Cynllun Llesiant a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ..... 10

1.6 Y Pump Ffordd o Weithio sydd eu hangen i gyrff cyhoeddus gyflawni'r Nodau Llesiant ..... 11

1.7 Cynllun Datgarboneiddio 2020-2030 ..... 12

2. Crynodeb, uchafbwyntiau a rhwystrau o gymharu ac Amcanion Blaengynllun CBSBG ..... 13

2.1 Llywodraethiant a Phartneriaethau ..... 13

2.2 Gwasanaethau Masnachol ..... 15

2.3 Gwasanaethau Cymdeithasol ........ 16

3. Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6 ........ 20

3.1 Yr hyn a weithiodd yn dda ........ 20

3.2 Beth fu'r rhwystrau? ........ 21

4. Astudiaethau Achos ........ 22

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Addysg, Tîm Tiroedd. ........ 22

**Partneriaethau Cydweithio:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cadwch Cymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Dysgu Awyr Agored Cymru Blaenau Gwent, Partneriaethau Natur Lleol ........ 22

4.1 Astudiaeth Achos 1: Prosiect Bioamrywiaeth a Dysgu Awyr Agored mewn Ysgolion ........ 22

4.2 Astudiaeth Achos 2: Rhaglen Allgymorth Bioamrywiaeth a Llesiant – Parc Bryn Bach a Thŷ a Pharc Bedwellte........ 24

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Tîm Tiroedd, Gwirfoddolwyr........ 24

**Partneriaethau Cydweithio:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cadwch Gymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Parc Bryn Bach, Tŷ a Pharc Bedwellte, Groundworks Wales, Tai Calon, Cyfeillion Tŷ a Pharc Bedwellte, Partneriaeth Natur Leol, Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ........ 24

4.3 Astudiaeth Achos 3: Prosiect Gwent Gydnerth ........ 26

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, gwirfoddolwyr........ 26

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gadarn, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, grwpiau cymunedol........ 26

4.4 Astudiaeth Achos 4: Partneriaeth Natur Leol a Phrosiect Lleoedd Natur Lleol ........ 31

**Meyusydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Cynnal a Chadw Tiroedd, gwirfoddolwyr........ 31

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gydnerth, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwynt, Partneriaeth Natur Leol, grwpiau cymunedol, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ........ 31

4.5 Astudiaeth Achos 5: Natur Wyllt – Grid Gwyrdd Gwent........ 32

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, gwirfoddolwyr........ 32

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gydnerth, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, Partneriaeth Leol Newydd ........ 32

# 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

## 1.1 Strwythur Adrodd

Cafodd yr adroddiad hwn ei gynhyrchu mewn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol i awdurdodau lleol adrodd ar gynnydd a wnaed **dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016** sy'n datgan fod gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu eu swyddogaethau yng nghyswllt Cymru ddyletswydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Wrth gydymffurfio gyda dyletswydd Adran 6, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus roi ystyriaeth i:

- Rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Gymru
- Adroddiad Cyflwr Natur a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Unrhyw ddatganiad ardal sy'n cynnwys y cyfan neu ran o'r ardal lle mae'r awdurdod yn gweithredu ei swyddogaethau, unwaith y caiff y rhain eu cynhyrchu



Ffigur 1. Mae Parc Bryn Bach yn safle pwysig ar gyfer darpariaeth bioamrywiaeth ym Mlaenau Gwent. Mae'n Warchodfa Natur Leol ac yn Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae 18km i'r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n darparu seilwaith gwyrdd pwysig ar gyfer pobl a bywyd gwyllt Tredegar.

Llun: Nadine Morgan

Mae'r adroddiad yn ystyried sut mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn weithredol i Gyngor Sir Blaenau Gwent, sut y cafodd cynlluniau, polisïau ac ymrwymiadau rhyng-gysylltiedig eraill eu cyflawni a sut ydym wedi perfformio ar Flaengynllun Cyngor Sir Blaenau Gwent ar gyfer bioamrywiaeth, gyda defnydd astudiaethau achos. Ym mhob rhan o'r ddogfen rydym hefyd wedi cydnabod sut y mae gwaith wedi cyfrannu at amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae gofyniad i adrodd ar y cynllun ym mis Rhagfyr 2022 a bob tair blynedd yn dilyn hyn. Caiff y cynllun ei adolygu'n ddilynol a chaiff blaengynllun wedi ei ddiweddaru ei gyhoeddi erbyn diwedd 2022.

## 1.2 Yr Awdurdod Cyhoeddus: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn sefydliad democrataidd sy'n cynnwys 33 cynghorydd etholedig ac sy'n cyflogi 2940 o weithwyr sy'n gyfrifol am reolaeth a gweithrediad y corff cyhoeddus o ddydd i ddydd.

## 1.3 Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem

Mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ddatblygu a chynhyrchu Blaengynllun Bioamrywiaeth ac Ecosystemau yn 2019.

Mae'r Blaengynllun hwn yn dilyn canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ystyried y saith Nod Llesiant a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, amcanion egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ac Egwyddorion Dull Gweithredu Ecosystemau (Adran 7.1, 7.3, 7.4 & 7.5).

Cafodd cyfleoedd ac amcanion eu dynodi a'u datblygu ar gyfer pob maes gwasanaeth drwy Gynllun Gweithredu Meysydd Gwasanaeth i sicrhau fod Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn cydymffurfio gyda'i Ddyletswydd Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau.

Bydd cyflawni'r gofynion dan y ddyletswydd newydd ar fioamrywiaeth yn helpu i:

- cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol a lles pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref;
- cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol a gwirfoddoli;
- gweithredu i ailgyfeirio a helpu i chwalu llygredd aer, dŵr a phridd;
- gweithredu i ostwng brigau llifogydd; a
- chwarae rhan bwysig wrth drin newid hinsawdd byd-eang a gweithredu i reoleiddio hinsawdd lleol.



*Ffigur 2. Mae draenogod yn rhywogaeth Adran 7 sydd wedi manteisio o arferion gweitho agosach gyda staff tiroedd a gweithredol a Swyddogion Ecoleg a Bioamrywiaeth.*

*Llun: Nadine Morgan*

## Blwch.1 Nodau Blaengynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

I gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent erbyn 2022 yn anelu i:

1. Gostwng y defnydd cyffredinol o adnoddau; ailddefnyddio lle'n bosibl ac ailgylchu popeth y gellir ei ailgylchu.
2. Cynyddu dealltwriaeth bioamrywiaeth ac ecosystemau yn staff y Cyngor a chynhorwyr drwy sianeli priodol yn cynnwys Pencampwyr Amgylchedd Maes Gwasanaeth a rôl Pencampwr Cynghorydd Natur.
3. Ymwreiddio her integreiddio Deddfau Teithio Llesol, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllunio ac Amgylchedd i annog cynaliadwyedd yn y ffyrdd yr ydym yn byw, gweithio a chwarae.
4. Hyrwyddo defnydd cyfrifol o adnoddau naturiol ym Mlaenau Gwent drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddechrau gweithredu a newid ymddygiad.
5. Cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno, yn neilltuol yng nghyswllt rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth.
6. Cefnogi Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen.

Mae'r nodau hyn hefyd yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol a llesiant y Cyngor.



*Ffigur 3. Gan weithio ar draws meysydd gwasanaeth gyda'r tîm tiroedd a ffermwr lleol, caiff ardal fawr o fewn mynwent Glynebwy ei rheoli ar gyfer cadwraeth blodau gwyllt. Mae'r safle yn cefnogi nifer o infertebratau yn cynnwys rhywogaeth Adran 7 – Gwibiwr llwyd*

*Llun: Nadine Morgan*

## Blwch 2 Amcanion Blaengynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

### Llywodraethiant a Phartneriaethau

**Amcan 1:** Cefnogi integreiddio amcanion y Blaengynllun i Gynlluniau Busnes Corfforaethol y cyngor a darparu adroddiadau chwarterol.

**Amcan 2:** Rhoi dolen i Gynllun Llesiant Blaenau Gwent a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Adnoddau:

Amcan i gael ei osod

### Gwasanaeth Masnachol:

**Amcane 1:** Cymryd camau pellach tuag at weithredu "swyddfa ddi-bapur" drwy ddatblygu'r system iTrent ymhellach ac ymestyn y swyddogaethau hunanwasanaeth.

### Gwasanaethau Cymdeithasol

**Amcan 1**: Tîm Seilwaith Gwyrdd (arweinwyr Deddf yr Amgylchedd) i fynychu cyfarfod Rheolwyr Darparwyr yn flynyddol.

**Amcan 2**: Annog rheoli mannau agored Darparwyr Gwasanaeth mewn modd cyfeillgar i natur.

**Amcan 3:** Ymrwymo ein dinasyddion a staff gyda'r amgylchedd drwy gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol o fewn ein Gwasanaethau Darparwyr.

### Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol

**Amcan 1:** Gweithio tuag at nodau'r Cynllun Datblygu Lleol, yn cynnwys cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd.

**Amcan 2**: Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno, yn arbennig yng nghyswllt rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent ac eraill.

**Amcan 3:** Sicrhau fod y Cyngor yn coleddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws swyddogaethau'r gwasanaeth ac yn cyfrannu at wella safonau addysgol yng nghyswllt bioamrywiaeth.

**Amcan 4:** Cefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol yn ei gwaith fel partneriaeth strategol o sefydliadau ac unigolion yn cyfeirio ac yn cyflawni cadwraeth natur ym mwrdeistrefi Torfaen a Blaenau Gwent, ar raddfa tirlun leol ac ehangach.

### Addysg

**Amcan 1:** Ymgysylltu ysgolion a myfyrwyr drwy sesiynau addysgol ac eco-gynghorau ac ymwreiddio cynaliadwyedd

**Amcan 2:** Tîm Seilwaith Gwyrdd (arweinwyr Deddf yr Amgylchedd) i fynychu cyfarfod blynyddol o benaethiaid ysgol

**Amcan 3**: Annog rheoli cyfeillgar i natur ar diroedd ysgol

**Amcan 4:** Ymgysylltu pobl ifanc gyda'r amgylchedd drwy'r gwasanaeth ieuenctid

## 1.4 Cefnogi Darpariaeth

Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod ecosystemau cydnerth a seilir ar dirlun bioamrywiol yn rhoi buddion lluosog i bobl Blaenau Gwent. Rydym yn ymroddedig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i sicrhau  cynaliadwyedd y buddion dilynol a'u cyfraniad at y nodau llesiant. Felly, cydnabyddir fod cydymffurfiaeth gyda'r ddyletswydd Adran 6 yn berthnasol i bob rhan o'r Cyngor yn cynnwys y Prif Weithredwr, Aelodau Etholedig a Phencampwr Natur, a swyddogion ar bob lefel.

Mae'r Tîm Amgylchedd Naturiol yn gyfrifol am arwain, adrodd a darparu cyngor yn gysylltiedig â gweithredu Deddf yr Amgylchedd ar draws y cyngor.

Gall y Tîm Amgylchedd Naturiol roi arweiniad ar gyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor fodd bynnag cyfrifoldeb y rheolwr maes gwasanaeth unigol fydd rhoi pob cynllun gweithredu ar waith, gan ystyried bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn unol gyda swyddogaethau'r meysydd gwasanaeth hynny.

Mae sefydliadau partneriaeth fel y Bartneriaeth Natur Leol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn hanfodol wrth weithredu bioamrywiaeth. Mae sefydliadau tebyg i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin Tai Calon ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn rhanddeiliaid allweddol wrth wneud newidiadau i reolaeth tir gan eu bod yn rheoli tir a gwarchodfeydd natur lleol yn uniongyrchol ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn defnyddio cyngor ac arweiniad gan y tîm Amgylchedd Naturiol i gefnogi eu gwaith.



*Ffigur 4. Caiff Gwarchodfa Natur Leol Cwm Tawel ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a'u gwirfoddolwyr. Y coetir ffawydd lled-naturiol yw'r enghraifft uchaf a mwyaf gorllewinol o'i math yn y Deyrnas Unedig i gyd ac fel canlyniad cafodd ei dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).*

*Llun: Jane Corey*

### Blwch 3. Partneriaeth Natur Leol

Ffurfiwyd Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen yn 2017, gan uno dau grŵp bioamrywiaeth lleol i rannu adnoddau i gyflwyno Partneriaeth Natur Lleol ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol. Roedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent yn bodoli cyn yr uno. Cafodd Cydlynydd Partneriaeth Natur Leol ei recriwtio i hwyluso gweithredu hyd at ddiwedd Mehefin 2022 yn defnyddio dyfarniad grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru (drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru).

Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys ystod eang o fudiadau, yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cyfeillion y Ddaear, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Cadwch Gymru'n Daclus, yn ogystal ag unigolion sydd â diddordeb mewn natur lleol.

Caiff darpariaeth hefyd ei lywio gan Gynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent Fwyaf a gynhyrchwyd gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Gwent Gydnerth. Bydd y ddogfen wedyn yn helpu i lywio'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Blaenau Gwent a Thorfaen.

## 1.5 Cynllun Llesiant a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent yn 2016 dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n dod ag ystod o sefydliadau sector cyhoeddus ynghyd gyda ffocws ar wella llesiant yr ardal. Gan adeiladu ar ganfyddiadau Asesiadau Llesiant Blaenau Gwent a Rhaglen Ymgysylltu y Blaenau Gwent a Garem, cafodd pump amcan llesiant lleol eu datblygu sy'n gosod cyfeiriad gweithredu ac agenda newid. Caiff y rhain eu manylu yng Nghynllun Llesiant 'Y Blaenau Gwent a Garem' (2018-2023).

Yn ystod Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem, dywedodd pobl wrthym eu bod yn trysori asedau naturiol Blaenau Gwent. Dylanwadodd hyn ar yr amcanion a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac arweiniodd at Amcan 3: Mae Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu ei amgylchedd naturiol, creu ardal ffyniannus sy'n byw mewn cytgord gyda'i amgylchedd naturiol, gan ddefnyddio adnoddau mewn ffordd deg a chynaliadwy.

Y Cynllun Corfforaethol (2018-2022) sy'n gosod gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor. Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw 'cymunedau cryf ac amgylcheddol ddeallus', sy'n anelu i wella mynediad i ac ansawdd ein mannau agored.

## 1.6 Y Pump Ffordd o Weithio sydd eu hangen i gyrff cyhoeddus gyflawni'r Nodau Llesiant

| **Y Blaeenau Gwent a Garem i Ofalu am a Diogelu'r Amgylchedd** | |
|---|---|
| **Cymhwyso Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y Bump Ffordd o Weithio** | |
| **Hirdymor** | Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ei fod yn ystyried effeithiau hirdymor ei benderfyniadau, gan sicrhau nad yw'r camau gweithredu y symudir ymlaen â nhw yn niweidiol i amgylcheddau naturiol a bioamrywiaeth yr ardal. Sylweddolwn fod yr adnoddau naturiol sydd gennym yn gyfyngedig ac felly mae'n rhaid i ni ystyried pa mor deg a pha mor gynaliadwy yr ydym yn eu defnyddio, a bydd eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>Bydd gan y tueddiadau cyfredol a hirdymor tebyg i newid hinsawdd effaith ar bobl a chymunedau lleol a'r amgylchedd naturiol. Felly, gan ddefnyddio dull gweithredu hirdymor byddwn yn edrych ar weithredu i ostwng allyriadau carbon Blaenau Gwent a diogelu a thyfu'r asedau naturiol sydd gennym i greu cymunedau mwy cynaliadwy. |
| **Ata;** | Bydd cymryd dull ataliol yn allweddol i sicrhau fod Blaenau Gwent yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, ac yn sicrhau fod yr ardal yn lleihau ei chyfraniad at newid hinsawdd.<br>Gan ddefnyddio dull ataliol, byddwn yn diogelu harddwch naturiol a natur yr ardal fel y gall pawb fwynhau buddion llesiant yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Integreiddio** | Mae gofalu'n llwyddiannus am a diogelu ein hamgylchedd naturiol yn golygu fod angen i'n holl amcanion llesiant gael eu cyflawni'n llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod fod amgylchedd naturiol Blaenau Gwent yn ased werthfawr y gellir ei defnyddio fel sbringfwrdd i hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar draws yr amcanion llesiant eraill. |
| **Cydweithio** | Bydd gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol yn golygu y bydd angen cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid. Bydd hefyd angen cydweithio i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer pobl leol a chymunedau i fedru manteisio o'u hamgylchedd naturiol a chymunedau i fanteisio ar eu hamgylchedd naturiol a drwy gydweithio gobeithiwn ostwng faint o adnoddau a ddefnyddiwn ac felly ein ôl-troed carbon. |
| **Cynnwys** | Byddwn yn cydweithio'n agos gyda phobl a chymunedau lleol yn ogystal ag ystod o randdeiliaid ehangach i ddiwallu'r amcan hwn. Ni all y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddiwallu'r amcanion ac mae angen cefnogaeth a chyfranogiad pawb yn ein hardal i wneud iddo ddigwydd. |

*Ffynhonnell: Cynllun Llesiant 'Y Blaenau Gwent a Garem' (2018-2023)*

## 1.7 Cynllun Datgarboneiddio 2020-2030

Cydnabyddir yn eang fod cysylltiad cynhenid rhwng hinsawdd a bioamrywiaeth, gyda newid hinsawdd bellach yn cael ei amlygu fel un o bump ysgogydd colli bioamrywiaeth.

Mae Cynllun Datgarboneiddio CBSBG yn nodi sut y bwriadwn ddod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030, ac yn sicrhau y caiff datgarboneiddio ei gynnwys yn ein cynlluniau hirdymor i wella llesiant ym Mlaenau Gwent.

Bydd datgarboneiddio’r cyngor yn cynnwys nifer o wahanol fathau o drosiant ym mhob un o’r meysydd effaith uchel yma (e.e. teithio, trydan). Mae’r cynllun yn cynnwys crynodebau trosiant sy’n dynodi heriau allweddol wrth gyflawni niwtraliaeth carbon ym mhob un o’r meysydd. Un o’r llwybrau trosiant yw secwestriadau, gan fod y Cyngor fel perchennog tir yn gyfrifol am stociau carbon sylweddol sydd eisoes wedi eu dala; coed a mawndir yw’r brif ddwy storfa carbon naturiol. Dynodwyd llawer o’r safleoedd hyn fel Gwarchodfeydd Natur Lleol. Mae dad-ddiwydiannu ym Mlaenau Gwent wedi arwain at don arall o newid tirwedd, mae gennym bellach y gyfran uchaf o orchudd coetir o blith holl awdurdodau lleol Cymru.




*Ffigur 5: Lleoliad Gwarchodfeydd Natur Lleol ar draws Blaenau Gwent.*

yn

un

eu

## 2. Crynodeb, uchafbwyntiau a rhwystrau o gymharu ac Amcanion Blaengynllun CBSBG

### 2.1 Llywodraethiant a Phartneriaethau

**Amcan 1:** Cefnogi integreiddio amcanion y Blaengynllun i Gynlluniau Busnes Corfforaethol y Cyngor a darparu adroddiadau chwarterol.

**Amcan 2:** Darparu cyswllt i Gynllun Llesiant a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent.

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

**Crynodeb Swyddogaethau:**

- Perfformiad corfforaethol, craffu a gwasanaethau democrataidd
- Polisi, partneriaethau ac ymgysylltu

**Uchafbwyntiau:**

- Daliwr cynllun busnes corfforaethol a monitro cynnydd,
- Caiff amcanion eu cynnwys ym mhob cynllun busnes maes gwasanaeth lle'n berthnasol
- Porth i lawer o fforymau ymgysylltu
- Dolen i'r cynllun llesiant
- Rhannu gweithredu ar ddyletswydd Adran 6 gyda chyrff gyhoeddus eraill drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd
- Cynnydd sylweddol gyda gwaith newid hinsawdd yn cynnwys Cynulliad Blaenau Gwent lle gwnaed argymhellion allweddol o amgylch bioamrywiaeth a mannau gwyrdd, yn arbennig ei ddiogelu a'i wella
- Bioamrywiaeth ac Ecosystemau yn rhan allweddol o ddatblygiad Asesiad Llesiant Gwent
- Arwain ar gyflwyno Blaenau Gwent ar Symud gyda buddion bioamrywiaeth cysylltiedig ar Lwybr Ebwy Fawr. Cyllidir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cafodd nifer o brosiectau cymunedol amgylcheddol eu hariannu drwy'r rhaglen cyllidebau cyfranogol

- Alinio'r cynllun datgarboneiddio gyda bioamrywiaeth
- Cydlynu gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent Fwyaf gydag agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus




*Ffigur 6: Cynllun Gweithredu Adfer Natur Blaenau Gwent a gynhyrchwyd fel rhan o Brosiect Gwent Fwyaf Gydnerth*

*Llun: Sheryl Edwards*

## 2.2 Gwasanaethau Masnachol



*Ffigur 7: Rhai o'r cerbydau trydan a ddefnyddir*

*Llun: CBSBG*

**Amcan 1:** Cymryd camau pellach tuag at weithredu "swyddfa ddibapur" drwy ddatblygu system iTrent ymhellach ac ymestyn y swyddogaethau hunanwasanaeth.

**Crynodeb Swyddogaethau:**

- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Cyfathrebu
- Datblygu sefydliadol
- Caffael

**Uchafbwyntiau:**

- Cyfathrebu allanol gyda phreswylwyr, busnesau ac ymwelwyr
- Cyfathrebu mewnol dan arweiniad y grŵp Pencampwyr Amgylchedd
- Ystyried effeithiau lleol, rhanbarthol a byd-eang caffael nwyddau
- Cyfrannu at y strategaeth caffael
- Cyfrannu at y strategaeth Datblygu Sefydliadol
- Annog newidiadau yn y diwylliant gwaith, er enghraifft cynnal cyfarfodydd tu fas a theithio llesol (seiclo neu gerdded i'r gwaith)
- Dalenni cyflog a threuliau yn awr yn ddibapur gyda datblygiad pellach i symleiddio prosesau
- Prosiect carbon isel yn unol â'r uchelgais i gael sector cyhoeddus di-garbon erbyn 2030
- Model gweithio hyblyg newydd: llai o deithio i'r gwaith ond hefyd lai o deithio busnes
- System post hybrid newydd
- Cyflwyno cerbydau fflyd allyriad isel iawn ym Mlaenau Gwent

## 2.3 Gwasanaethau Cymdeithasol

**Amcan 1**: Tîm Seilwaith Gwyrdd (arweinwyr Deddf yr Amgylchedd) i fynychu cyfarfod Rheolwyr Darparydd yn flynyddol

**Amcan 2:** Annog rheolaeth gyfeillgar yn ein mannau agored Gwasanaethau Darparydd

**Amdan 3:** Ymgysylltu ein dinasyddion a staff gyda'r amgylchedd drwy gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol o fewn ein Gwasanaethau Darparwyr

**Crynodeb Swyddogaethau:**

- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

**Uchafbwyntiau:**

- Cyfleoedd lluosog mewn gwasanaethau plant ac oedolion
- Defnyddio mannau gwyrdd
- Gwella a chyfoethogi gerddi a thiroedd gwasanaethau cymdeithasol – datblygiad parhaus
- Ymgysylltu llesiant plant yng ngofal y cyngor

## 2.4 Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol

**Amcan 1:** Gweithio tuag at nodau'r Cynllun Datblygu Lleol, yn cynnwys cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd.

**Amcan 2:** Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno, yn arbennig yng nghyswllt rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent ac eraill.

**Amcan 3**: Sicrhau bod y Cyngor yn coleddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws swyddogaethau'r gwasanaeth ac yn cyfrannu at wella safonau addysgol yng nghyswllt bioamrywiaeth.

**Amcan 4:** Cefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol yn ei gwaith fel partneriaeth strategol o sefydliadau ac unigolion yn cyfeirio a chyflenwi cadwraeth natur ym mwrdeistrefi Torfaen a Blaenau Gwent, ar raddfa tirwedd lleol ac ehangach.

**Crynodeb o Swyddogaethau:**

- Gwasanaethau integredig rheng-flaen
- Diogelu'r Cyhoedd
- Gwasanaethau Eiddo
- Seilwaith
- Adfywio
- Cynllunio



*Ffigur 8: Gwirfoddolwyr yn adfer pwll yr oedd prysgwydd wedi tyfu arno ac wedi lleidio.*

*Llun: Nadine Morgan*

**Uchafbwyntiau:**

- Rheoli tir mewn modd priodol
- Cynnwys cymunedau lleol
- Ymgysylltu mwy o bobl yn eu gofodau gwyrdd lleol
- Gwella mynediad ac ansawdd mannau gwyrdd lleol
- Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol: cefnogi cynhwysiant cydnerthedd ecosystemau yng Nghynllun Datblygu Lleol 2018-2033
- Dynodi 5 Gwarchodfa Natur Leol ym mis Mawrth 2019
- Cynyddu effeithiolrwydd adeiladau'r cyngor
- Cefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol
- Mae gan brosiect Gwent Gydnerth nifer o ffrydiau gwaith yn cyflawni ar gynnal a chynyddu bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau
- Cyflwyno Lleoedd Natur Lleol



*Ffigur 9: Cafodd llyffantod dafadennog ei symud yn ddiogel cyn gwneud gwaith adfer y pwll.*

*Llun: Nadine Morgan*

2.5 Addysg

**Amcan 1**: Ymgysylltu ysgolion a myfyrwyr drwy sesiynau addysgol a chynghorau eco ac ymwreiddio cynaliadwyedd

**Amcan 2:** Tîm Seilwaith Gwyrdd (arweinwyr Deddf yr Amgylchedd) i fynychu cyfarfod blynyddol gyda Phenaethiaid Ysgol.

**Amcan 3**: Annog rheolaeth gyfeillgar i natur ar diroedd ysgolion.

**Amcan 4:** Ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr amgylchedd drwy'r gwasanaeth ieuenctid



*Ffigur 10: Cymerodd plant o Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort ran ym mhrosiect 'Llyswennod yn yr Ystafell Ddosbarth' a helpu i ofal am y llyswennod cyn eu gollwng i'r pyllau yng Ngwarchodfa Natur Lleol Coetir Beaufort. Llun: Nadine Morgan*

**Crynodeb o Swyddogaethau:**

- Cynhwysiant a gwella ysgolion
- Trawsnewid a pherfformiad
- Gwasanaeth Ieuenctid

**Uchafbwyntiau:**

- Ymgysylltu ag ysgolion a myfyrwyr drwy sesiynau addysgol a chynghorau eco: Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag ysgolion
- Mynychu cyfarfodydd penaethiaid ysgol
- Rheoli ar gyfer natur ar diroedd ysgol
- Cael myfyrwyr i gymryd rhan gyda'r cyngor e.e. prosiectau lleoliad gwaith
- Datblygu Cynllun Gweithredu Ecoleg ac Addysg

## 3. Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

### 3.1 Yr hyn a weithiodd yn dda

- Mae ymwreiddio bioamrywiaeth i mewn i gynlluniau corfforaethol ac amcanion y Cyngor yn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Cadw a chynyddu ecosystemau mwy cydnerth  drwy gynlluniau datblygu a dylunio.
- Adfer a chreu cynefinoedd – cynyddu cydnerthedd ecosystemau
- Cynyddu cysylltiad â'r gymuned – codi ymwybyddiaeth am y rhesymau dros newidiadau rheoli tir
- Mwy o ymgyfraniad y gymuned – cadwraeth naturiol, cofnodion biolegol
- Rhannu arfer gorau
- Gwneuthurwyr penderfyniadau yn gwybod am ddeddfwriaeth bywyd gwyllt yn cynnwys Adran 6
- Galluogi grwpiau cymunedol i reoli safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth
- Mwy o seilwaith gwyrdd yn arwain at gynnydd mewn cysylltedd ecolegol
- Rheoli INNS
- Gweithredu technegau naturiol rheoli llifogydd
- Cyflawni nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent Fwyaf
- Cydweithio ar brosiectau graddfa tirwedd



*Ffigur  11: Gwarchodfa Natur Lleol Coetir Roseheyworth*

*Llun: Nadine Morgan*

## 3.2 Beth fu'r rhwystrau?

- Covid 19 e.e. Yn anffodus, cafodd Opsiynau Cymunedol ei gau ym Mawrth 2020 a chafodd staff eu hadleoli i wasanaethau hanfodol ac fel canlyniad cynnydd cyfyngedig a wnaed o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol – mae Gwasanaethau Oedolion wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi cyflwyno gwasanaethau hanfodol ac mae nifer o wasanaethau heb eu rheoleiddio wedi bod â ffocws ar gefnogi dinasyddion yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned a gaiff eu hasesu fel bod mewn angen critigol.
- Mae newidiadau mewn staffio wedi arwain at darfu ar barhad darpariaeth prosiectau bioamrywiaeth.
- Adnoddau staffio cyfyngedig – nid yw newidiadau rheoli yn bosibl gan y byddant yn golygu cost ac mae cyfyngiadau ar gyllidebau.
- Newidiadau mewn blaenoriaethau o fewn meysydd gwasanaeth. Mae rhai safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys safleoedd dynodedig tebyg i Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) a Chynefinoedd Blaenoriaeth
- Nid yw canfyddiad y cyhoedd o newidiadau rheoli tir bob amser yn cael eu croesawu
- Heriau ymarferol, gyda chyfyngiadau tymhorol
- Gwrthdaro am blannu coed ar gynefinoedd blaenoriaeth
- Gall fod yn heriol sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau

## 4. Astudiaethau Achos

### 4.1 Astudiaeth Achos 1: Prosiect Bioamrywiaeth a Dysgu Awyr Agored mewn Ysgolion

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Addysg, Tîm Tiroedd.

**Partneriaethau Cydweithio:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cadwch Cymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Dysgu Awyr Agored Cymru Blaenau Gwent, Partneriaethau Natur Lleol

Nid pwnc yw dysgu awyr agored, ond safle ar gyfer dysgu.

Nod y prosiect:

- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy gynyddu, adfer a gwella gofodau gwyrdd trefol (tiroedd ysgol)
- Creu cyfleoedd dysgu ar gyfer plant ysgol a meithrin gwerthfawrogiad o gadwraeth natur a bioamrywiaeth

Mae hyn yn gyfle i helpu grymuso pobl ifanc a chefnogi'r cwricwlwm newydd a chynlluniau eraill tebyg i Ysgolion Coedwig, Ysgolion Eco a Byw Iach a Chynaliadwy. Gall bod yn yr awyr agored wella iechyd a llesiant, annog dysgu sgiliau newydd a rhoi mwy o ddealltwriaeth o diroedd ysgol i'w rannu gyda holl gymuned yr ysgol. Gall amser tu fas mewn natur hyrwyddo dysgwyr uchelgeisiol a galluog ac ysbrydoli disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus o Gymru a'r byd.



*Ffigur 12: Plannu coed gyda phlant ysgol*

*Llun: Becky Ward*

Drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, mae Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithio gyda 24 ysgol ar draws Blaenau Gwent, o Blynyddoedd Cynnar i Ysgolion Uwchradd. Mae gan bob ysgol Gynllun Rheoli Bioamrywiaeth, gyda chamau gweithredu wedi eu dynodi o fewn y cynlluniau hyn a gaiff eu gwneud o fewn tiroedd yr ysgol. Mae gweithgareddau wedi cynnwys:

- ❖ Plannu coed
- ❖ Plannu gwrychoedd
- ❖ Adfer pyllau dŵr
- ❖ Perllannau
- ❖ Newid systemau torri gwair/hadu blodau gwyllt
- ❖ Gosod cartrefi anifeiliaid e.e. blychau ystlumod, blychau adar, blychau draenogod

Cafodd llawer iawn o waith ei wneud hyd yma, gan weithio gydag ysgolion i gynyddu bioamrywiaeth o fewn eu tiroedd a chodi amrywiaeth o gadwraeth bioamrywiaeth ymysg plant ysgol.



*Ffigur 11-14:Trochi yn y pwll, adnabod dail a plannu coed ar gyfer Canopi Gwrdd y Frenhines  Lluniau: Becky Ward, Nadine Morgan*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dynodi, gwella a defnyddio mannau gwyrdd | | Gwella ansawdd bywyd | 🐝 |
| Cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth | 🐝 | Hyrwyddo dysgu drwy fioamrywiaeth | 🐝 |
| Annog ymgyfraniad y gymuned leol | 🐝 | Ystyried bioamrywiaeth mewn cynllunio a datblygu | 🐝 |

## 4.2 Astudiaeth Achos 2: Rhaglen Allgymorth Bioamrywiaeth a Llesiant – Parc Bryn Bach a Thŷ a Pharc Bedwellte

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Tîm Tiroedd, Gwirfoddolwyr

**Partneriaethau Cydweithio:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cadwch Gymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Parc Bryn Bach, Tŷ a Pharc Bedwellte, Groundworks Wales, Tai Calon, Cyfeillion Tŷ a Pharc Bedwellte, Partneriaeth Natur Leol, Parc Rhanbarthol y Cymoedd,

Mae gan Dîm Amgylchedd Naturiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin – Parc Bryn Bach i gyflwyno rhaglen allgymorth bioamrywiaeth a llesiant.

Y nod yw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o gadwraeth bioamrywiaeth drwy wella tiroedd/safleoedd a reolir Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

Y weledigaeth ar gyfer y ddau safle yw:

- Safle biolegol amrywiol, lle mae nodweddion presennol a rheoli gwybodus yn cyfuno i gynyddu gwerth y safle i'r eithaf ar gyfer cadwraeth natur;
- Safle y gall pob aelod o'r gymuned ei ddefnyddio a'i fwynhau;
- Safle sy'n falch o gadw ei ymdeimlad o hanes, ar yr un pryd â chynnig posibiliadau newydd fel ffocws ar gyfer y gymuned yn yr ardal leol;
- Ac, yn bennaf oll, safle sy'n helpu i ddatblygu ymdeimlad o'r warchodfa fel lle arbennig, gwerthfawr i'r ardal leol a'r rhanbarth ehangach.


Caiff camau gweithredu eu cyflawni yn unol â'r Cynllun Rheoli Ecolegol a Chynllun Gwella Bioamrywiaeth, ac maent yn cynnwys:

- ❖ Plannu coed
- ❖ Rheoli coetir
- ❖ Adfer pyllau dŵr
- ❖ Rheoli glaswelltir
- ❖ Plannu bylbiau brodorol
- ❖ Plannu gwrychoedd



*Ffigur 15: Plannu blodau gwyllt brodorol ym Mharc Bryn Bach gydag ymddiriedolwyr ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent     Llun:  Nadine Morgan*

Bydd elfennau o'r prosiectau sy'n hyfforddi, cynyddu sgiliau a meithrin gallu yn sicrhau y gall cymunedau lleol a staff sefydliadau partner barhau i gyfrannu at gryfhau rhwydweithiau ecolegol. Bydd gan gymunedau fwy o gysylltiad gyda'u hamgylchedd lleol a rhanbarthol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo newid mewn ymddygiad, gyda phobl sy'n gwneud newidiadau parhaus o fudd i'w llesiant eu hunain ac sy'n annog bioamrywiaeth.



*Ffigur 16: Gwirfoddolwyr yn tynnu chwyn o'r llyn ym Mharc Bryn Bach, ac un o sesiynau ymgysylltu Dydd Mercher Bywyd Gwyllt a gynhaliwyd yn ystod yr haf. Lluniau: Nadine Morgan*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dynodi, gwella a defnyddio mannau gwyrdd | 🐝 | Gwella ansawdd bywyd | | 🐝 |
| Cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth | 🐝 | Hyrwyddo dysgu drwy fioamrywiaeth | | 🐝 |
| Annog ymgyfraniad y gymuned leol | 🐝 | Ystyried bioamrywiaeth mewn cynllunio a datblygu | | 🐝 |

## 4.3 Astudiaeth Achos 3: Prosiect Gwent Gydnerth

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, gwirfoddolwyr

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gadarn, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, grwpiau cymunedol

Cafodd prosiect Gwent Gydnerth ei ariannu gan Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru (2019-2022), a chafodd ei arwain gan CBSBG. Mae'r prosiect yn arddangos dull gweithredu ar draws tirwedd a chysylltedd De Ddwyrain Cymru, i greu a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ddarparu adnoddau naturiol a gaiff eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac egwyddorion ar gyfer cymunedau.


Mae'r prosiect yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau i ddod ag ystod eang o fuddion amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Mae'r prosiect yn rhagweld De Ddwyrain Cymru sydd ag adnoddau bioamrywiaeth cyfoethog a chynyddol a werthfawrogir gan bobl leol sy'n ymgysylltu gydag ef ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant. Caiff camau gweithredu hefyd eu cymryd yn erbyn pump ysgogydd colli bioamrywiaeth: newid hinsawdd, llygredd, newid  a cholli cynefinoedd, rhywogaethau anfrodorol ymledol ac ecsbloetiad.

Y weledigaeth yw Gwent sydd ag ecosystemau ffyniannus, sy'n gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd tebyg i ddigwyddiadau tywydd difrifol ac sy'n medru addasu i newid mewn amodau, yn cefnogi poblogaethau cadarn o fywyd gwyllt a bywyd planhigion amrywiol Cymru. Mae ecosystemau yn darparu gwasanaethau a gaiff eu defnyddio'n gynaliadwy a'u gwerthfawrogi gan gymunedau yn yr ardal.

Mae'r holl brosiect yn seiliedig ar ddwy ffrwd gwaith:

**Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth**

Aiff hyn ati i greu cynllun strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyfeirio gweithredu adfer natur yng Ngwent a fyddai'n cefnogi bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Roedd y prosiect yn cynnwys: monitro ac adrodd datblygiadau ar y fframwaith Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Addasrwydd ac yn cynnwys ymgorffori'r syniadau diweddaraf mewn rheoli tir a defnydd dulliau cyfathrebu i gynyddu dealltwriaeth o gydnerthedd ecosystemau a datblygu enghreifftiau o arfer gorau.




- Adroddiad Cyflwr Natur Gwent
  I gynyddu cydnerthedd ein ecosystemau, cyhoeddwyd Adroddiad Cyflwr Natur Gwent ym mis Gorffennaf 2021, ynghyd â thaflen grynodeb a chafodd ei ddosbarthu mewn gwahanol ddigwyddiadau cyhoeddus. Mae'r data a'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad yn werthfawr tu hwnt ar gyfer ecosystemau y rhanbarth gan iddo edrych ar y data am 100 rhywogaeth a grwpiau o rywogaethau ar draws Gwent. Fe ddynododd rywogaethau a chynefinoedd sy'n fynnu ac adfer a'r rhai sydd mewn risg. Felly, fe wnaeth lywio

datblygiad Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent fel canllaw strategol tuag at adfer natur ar raddfa ranbarthol ar draws Gwent, sydd yn ei dro yn llywio Cynlluniau Adfer Gweithredu Natur Lleol y pump awdurdod lleol sy'n bartneriaid.

- Afonydd

Cafodd y Prosiect Afonydd ei arwain gan CBS Blaenau Gwent gyda'r nod o ddatblygu dull gweithredu graddfa tirwedd i wella ein rhwydweithiau glas.

Fel rhan o'r ffrwd gwaith afonydd sefydlwyd Partneriaethau Afon yn cynnwys Gwent a chynhaliwyd cyfarfodydd. Nod y partneriaethau hyn yw gwella ein hafonydd drwy gydweithio. Mae Ceidwaid Afonydd hefyd yn monitro'r afonydd, mewn cysylltiad gyda hyfforddiant Canolfan Adfer Afonydd ar gyfer yr Arolwg Cynefinoedd Afonydd Dinasyddion a sefydlwyd ac y gynhaliwyd. Mae hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gwyddor dinasyddion a helpu i fonitro'r afonydd ar draws Gwent. Mae Partneriaid Gwent Gydnerth a Grid Gwyrdd Gwent wedi gweithio gyda'r Ganolfan Adfer Afonydd i gyd-gynhyrchu strategaeth adfer afonydd lefel uchel a chynllun 5 mlynedd fydd yn cefnogi dull gweithredu integredig, ar y cyd i adfer afonydd yn yr hirdymor ar draws Gwent.



*Ffigur 17: Buglife yn arwain taith dywys yng Nghoetir Cwm Sirhywi Llun: Buglife*

- Infertebratau Tomen  Sborion Glofeydd

Dan arweiniad Buglife Cymru, edrychodd y prosiect hwn ar gynyddu ein gwybodaeth o ddosbarthiad ac amrywiaeth infertebratau ar domennydd sborion glofeydd yng Ngwent drwy waith arolwg a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth.

Fel rhan o'r ffrwd gwaith, defnyddiwyd Ffurflen Asesu Cynefin Tomennydd Sborion i gwblhau rhestr o infertebratau allweddol ar gyfer safle tomen sborion glofeydd, a wnaed i hwyluso asesiadau safle. Cynhyrchwyd dalenni yn seiliedig ar y ffurflen ac maent ar gael ar wefan Buglife. Cafodd arolygon o rai o'n safleoedd tomennydd sborion yng Ngwent eu cwblhau, a gwnaed argymhellion rheoli. Bu digwyddiadau a weithdai i wirfoddolwyr yn rhan gyfannol o ddarparu'r ffrwd gwaith hwn. Bu nifer dda yn bresennol mewn digwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu tebyg i weithdai adnabod, a chymerodd gweithgareddau ran wrth gynnal y cynefin tomennydd sborion gyda gweithgareddau tebyg i glirio prysgwydd.

- Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol

Cafodd Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol eu harwain gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. Y nod yw System Safle Bywyd Gwynt Lleol Blaenau Gwent sy’n gweithredu’n llawn yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd yn datblygu System Safle Bywyd Gwyllt Lleol Sir Fynwy. Fel rhan o’r ffrwd gwaith hwn cafodd 700 Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur eu hadolygu a chreu 92 Safle Bywyd Gwyllt Lleol. Mae ymgysylltu gyda pherchnogion tir yn ganolog i sicrhau effeithiau hirdymor cadarnhaol yn ganolog i lwyddiant y gwaith hwn.

- Rhywogaethau Goresgynnol Estron

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, nod y prosiect hwn yw atal rhywogaethau goresgynnol estron yn holl ardal De Ddwyrain Cymru gan ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull gweithredu strategol ac adeiladu ar y mesurau rheoli llwyddiannus a weithredir eisoes. Bydd y prosiect yn targedu dalgylchoedd ym mhob rhan o’r ardal.

Mae’r prosiect wedi arolygu 60ha o dir ac wedi trin 1700 o safleoedd ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, yn arbennig Clymog Japan, Jac y Neidiwr ac Efwr Enfawr. Cafodd tir y mae’r cyngor yn berchen arno a mannau gwyrdd sy’n agored i’r cyhoedd eu trin ar draws Gwent.



*Ffigur 18: Clymog Japan a gafodd ei drin fel rhan o’r rhaglen Llun: Aileen Vaughan*


- Bioamrywiaeth Trefol

  Caiff y ffrwd gwaith hwn ei arwain gan Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn debyg i gymunedau cynaliadwy, bydd hefyd yn cysylltu gyda chymunedau ond yn neilltuol, gweithio gydag ysgolion, preswylwyr preifat a chymdeithasau tai. Caiff pobl eu hannog, eu hysbysu a'u cefnogi i gymryd camau i sylwi a helpu'r bioamrywiaeth ar garreg eu drws gan eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus i ddiogelu bywyd gwyllt yn eu gerddi a mannau cymunedol.

  Roedd prosiectau yn y ffrwd gwaith yn cynnwys gweithio gyda grwpiau a darparu pecynnau cofnodi bywyd gwyllt i unigolion, grwpiau cymunedol ac ysgolion. Cafodd pecynnau cofnodi tebyg eu dosbarthu ar draws Gwent, gan gysylltu'n agos gyda phrosiectau unigol yr awdurdod lleol. Roedd pecynnau'n rhoi sylw i anifeiliaid tebyg i ystlumod, ymlusgiaid, gloÿnnod byw a draenogod a gallent gynnwys eitemau tebyg i fwydwyr adar a chanllawiau adnabod, blychau ystlumod, canfyddwyr ystlumod, tyllau draenogod a marcwyr platiau metel, llyfrau natur a llesiant, planhigion ffrwythau a pherlysiau.

  Mewn rhai rhannau o Went, anfonwyd gweithgareddau bob wythnos i annog ymgysylltu a derbyn adborth, gyda gweithgareddau yn cynnwys pethau fel garddio bywyd gwyllt, rysetiau yn defnyddio perlysiau gardd, digwyddiadau adnabod adar yr Ardd Fawr a digwyddiadau arolwg ystlumod. Cafodd unigolion eu hannog drwy'r digwyddiadau hyn i gyflwyno eu cofnodion i SEWBReC, a galluogi defnyddwyr i gael dealltwriaeth wirioneddol da a dealltwriaeth o'r math o fywyd gwyllt sydd ar gael ar garreg eich drws.






*Ffigur 19: Dangos i wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn Bioblitzx yng Ngwarchodfa Natur Leol Rowson. Cafodd y Pecyn Peiullwyr ei gynhyrchu fel rhan o Cymunedau*

**Cymunedau Cynaliadwy**

Roedd gan hyn ddull gweithredu cymunedol a seiliedig ar le, gan gysylltu gyda chymunedau i ychwanegu gwerth i'r gwaith cydnerthedd ecosystemau. Ffocws y ffrwd waith oedd meithrin gallu a sgiliau a gweithredu cymunedol i annog a galluogi newid ymddygiad cynaliadwy ac ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn, cafodd grwpiau a chyfleoedd cymunedol a gwirfoddol newydd eu creu, gan fanteisio i'r eithaf ar y nifer uwch o bobl sy'n barod i gynorthwyo gyda gwaith cadwraeth a chymryd rhan mewn gwyddor dinasyddion ym Mhrydain. Roedd y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd effaith

y pandemig, a arweiniodd at i bobl ymchwilio a gwerthfawrogi eu mannau a lleoedd gwyrdd lleol yn fwy. Drwy’r ffrwd gwaith hwn mae mwy o bobl wedi cysylltu’n gynyddol gyda ac yn gwerthfawrogi natur ac yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw cynaliadwy. Mae’r camau gweithredu a’r cyfleoedd a gyflwynir drwy is-brosiectau’r ffrwd gwaith hwn wedi cefnogi llesiant corfforol a meddyliol, gan felly ddatblygu ecosystemau a chymunedau cydnerth.

**Partneriaeth Gwynt Gydnerth**

Mae’r Bartneriaeth yn cynnwys nifer o sefydliadau, yn cynnwys:

- Buglife
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Ecoleg Dechnegol
- SEWBReC

Nod y Bartneriaeth yw hyrwyddo’n llwyddiannus, cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o rwydweithiau ecolegol cydnerth, gan arddangos cynaliadwyedd parhaus ar adnoddau naturiol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dynodi, gwella a defnydd mannau gwyrdd | | Gwella ansawdd bywyd | | |
| Cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth | | Hyrwyddo dysgu drwy fioamrywiaeth | | |
| Annog ymgyfraniad y gymuned leol | | Ystyried bioamrywiaeth mewn cynllunio a datblygu | | |

## 4.4 Astudiaeth Achos 4: Partneriaeth Natur Leol a Phrosiect Lleoedd Natur Lleol

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, Cynnal a Chadw Tiroedd, gwirfoddolwyr

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gydnerth, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwynt, Partneriaeth Natur Leol, grwpiau cymunedol, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin

Prosiect partneriaeth arall a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i wella natur 'ar garreg eich drws'. Nod y prosiect yw cefnogi rheoli ymylon ffyrdd ar gyfer bywyd gwyllt, plannu gwrychoedd newyddf a rheoli gwrychoedd presennol, codi waliau sych, cefnogi rheolaeth dolydd trefol a darparu hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol.

Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Plannu gwrychoedd/coed ym Mharc Bryn Bach, Coetiroedd Beaufort, Parc Abertyleri, Parc Six Bells, Parc Llesiant Nantyglo a Llynnoedd Cwmtyleri
- Addasu'r drefn torri gwair ym Mhant y Fforest, Glynebwy
- Rheoli gwrychoedd yng Nghoetir Beaufort
- Adfer pwll dŵr yng Nghwmcelyn
- Hyfforddiant grwpiau cymunedol ar beiriannau torri a chasglu yng Nghoetir Cwm Sirhywi
- Cynhyrchu Cynlluniau Gwella Bioamrywiaeth Parciau
- Cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Coetiroedd
- Cynnal arolygon botanegol ar gyfer ymylon priffordd
- Dehongli bioamrywiaeth




*Ffigur 20. Arwyddion dehongli bioamrywiaeth i godi ymwybyddiaeth am pam y newidwyd y systemau torri ar gyfer ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd Llun: Nadine Morgan*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dynodi, gwella a defnydd mannau gwyrdd | | Gwella ansawdd bywyd | | |
| Cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth | | Hyrwyddo dysgu drwy fioamrywiaeth | | |
| Annog ymgyfraniad y gymuned leol | | Ystyried bioamrywiaeth mewn cynllunio a datblygu | | |

## 4.5 Astudiaeth Achos 5: Natur Wyllt – Grid Gwyrdd Gwent

**Meysydd Gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Amgylchedd Naturiol, gwirfoddolwyr

**Partneriaethau Cydweithio:** Partneriaeth Gwent Gydnerth, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, Partneriaeth Leol Newydd

Nod Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yw gwella a datblygu seilwaith gwyrdd, yn ogystal â darparu cyfleoedd swyddi gwyrdd yn yr ardal. Mae gan seilwaith gwyrdd rôl hollbwysig i'w chwarae wrth drin argyfyngau natur, newid hinsawdd ac iechyd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydweithio gyda chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill. Bydd y sefydliadau yn cydweithio i sicrhau fod adnoddau naturiol yr ardal yn gydnerth i bwysau a bygythiadau ac felly'n medru darparu yn well ar gyfer buddion hanfodol iechyd a llesiant ar gyfer cenedlaethau cyfredol a dyfodol.

Bydd y bartneriaeth yn helpu i gyflwyno ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd Cymru drwy brosiectau ar y cyd fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned.

Un o'r prosiectau cydweithio yw 'Natur Wyllt', sy'n anelu i annog sefydliadau ac unigolion i reoli glaswelltir, mannau agored a pharciau ar gyfer bioamrywiaeth drwy addasu'r systemau torri gwaith. Drwy weithredu'r cynllun hwn o waith mae'n creu tapestri cyfoethog o gynefinoedd ar gyfer peillwyr ar draws rhanbarth Gwent Fwyaf.

Rhai o'r safleoedd lle cafodd systemau torri gwair eu newid yw ymylon nifer o ffyrdd, cylchfannau ac ysgolion ar draws Blaenau Gwent. Cafodd byrddau dehongli eu gosod yn y safleoedd hyn i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd newidiadau mewn rheolaeth. Bu hefyd ymgysylltu cymunedol gyda gweithdai monitro peillwyr ym Mharc Bryn Bach.



*Ffigur 21-23 (chwith i'r dde). Gadawyd ymylon un o'r ffyrdd yn Waunlwyd ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt, gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant monitro peillwyr, bwrdd dehongli yng Ngwarchodfa Natur Leol Beaufort.*

*Llun: Nadine Morgan*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dynodi, gwella a defnydd mannau gwyrdd | | Gwella ansawdd bywyd | | |
| Cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth | | Hyrwyddo dysgu drwy fioamrywiaeth | | |
| Annog ymgyfraniad y gymuned leol | | Ystyried bioamrywiaeth mewn cynllunio a datblygu | | |